

15/10/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Teimlwn ei fod yn gyfle gwych i atgoffa'n gilydd o rai o'r seiliau cadarn sydd wedi sicrhau bod Bryn Tawe yn ysgol lwyddiannus. Man bethau, o bosib yw y rhain, ond mae eu gwerth i hybu cymuned hapus a diogel yn allweddol, fel sydd o hyd yn cael ei brofi mewn ysgolion ledled Prydain.

Mae ein safonau a'n disgwyliadau o ran ymddangosiad eich plentyn bob amser wedi bod, a byddant yn parhau i fod yn uchel ac yn rhesymol. Mae rhan fwyaf o'n disgyblion yn y wisg gywir bob dydd ac rydym yn ddiolchgar i'r rhieni hynny sy'n danfon eu plant yn i'r ysgol yn gyson yn y wisg gywir. Heb os, mae ymddangosiad ein disgyblion, yn y wisg newydd (crys a thei) yn diffinio'r parch sydd gan ddisgybl tuag at ei hun a'i ysgol. Hoffwn felly uwchleuo ambell beth fydd yn sicrhau, gyda'ch cydweithrediad chi fel rhieni, bod y safonau ym Mryn Tawe yn parhau i fod yn rhai y byddwch fel rhieni, bydd y disgyblion a ninnau fel staff yr ysgol yn ymfalchio ynddynt.

Mae'r wybodaeth o ran ein disgwyliadau gwisg ac esgidiau wedi'i osod allan yn glir yn llyfr cyswllt eich plentyn ac ar wefan yr ysgol.

Hoffwn uwchleuo rhai pwyntiau o'r polisi wisg i bawb ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau safonau uchel o ymddangosiad ar draws yr ysgol:

- **Esgidiau du plaen yn unig**
- **Trowsus du plaen.** Ni chaniateir jîns o unrhyw fath (gan gynnwys jîns tynn), 'cords', trowsus tynn 'lycra' na trowsus 'combat' neu **Sgert ddu blaen** sy'n cyrraedd y pen-glin. Ni chaniateir sgertiau elastig tynn.
- **Siwmperi a chotiau – siwmperi ysgol yn unig, a chotiau du neu nefi plaen yn unig.**
- **Gemwaith – mae hawl gan ddisgyblion i wisgo un styd plaen ar waelod y clust yn unig – h.y. dim gemwaith ar unrhyw rhan arall o'r corff am rhesymau iechyd a diogelwch.**
- Nid oes hawl gwisgo **paent ewinedd**, neu **estyniadau i'r ewinedd**

Mae gwisg y chweched ychydig yn wahanol, ac oherwydd hyn nid yw siwmperi du yn dderbyniol i unrhyw ddisgybl o flynyddoedd 7-11.

Newidiadau - 1af o Dachwedd 2021

O'r 1af o Dachwedd fe fyddwn yn gwirio gwisg pawb yn rheolaidd, a phetai rhywun yn y wisg anghywir – bydd disgwyl iddyn nhw addasu/newid ar unwaith - fe fyddwn yn rhoi fenthyg gwisg glân (e.e. Siwmperi) i ddisgyblion sydd yn y wisg anghywir. **Disgwylir i bawb sydd â thrwyn wisg ac ewinedd hir/lliugar tynnu rhain erbyn y 1af o Dachwedd 2021** - unrhyw ddisgybl sydd â thrwyn wisg bydd rhaid iddyn tynnu a'i rhoi mewn i'r swyddfa tan ddiwedd y dydd.

Petai problem gyda gwisg eich plentyn, bydd angen sicrhau bod nodyn (wedi ei dyddio) ganddynt, yn esbonio'r rheswm am y wisg anghywir. Fe fyddwn yn rhesymol gyda'r ceisiadau yma, ond disgwylir i rieni/disgyblion datrys y problem yn fuan.

Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cydweithrediad, unwaith eto, o flaen llaw ac am weddill y flwyddyn. Os oes problem prynu'r wisg gywir – cysylltwch gyda'r Arweinydd Dysgu perthnasol neu minnau.

Yn gywir,

Mark Bridgens (Pennaeth Cynorthwyol)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwb.cymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL** | Aur





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

